

## Sefyll ar Air Duw

Mae'r presennol yn amser o brawf ac yn anodd i bawb oherwydd ymlediad y Coronafeirws. Cydymdeilwn gyda theuluoedd sydd wedi colli anwyliaid a gweddiwn am adferiad i'r cleifion sy'n dioddef, gan eiriol yn arbennig ar ran gweithwyr y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol sy'n gwneud yr hyn allont i orchfygu y feirws a dod a phawb drwy'r amser anodd hwn. Wrth nesáu at Y Pasg gan gofio am ddiodeffaint Crist, gwyddom fod Duw, sy'n Dad y trugareddau ac yn Dduw pob diddanwch, yn Dduw sy'n uniaethu â ni yn ein poenau a'n gofidiau.

Ddechrau'r flwyddyn eleni fe wynebais dristwch a phrofedigaeth galar pan gollais yn ddisymwth gymydog oedrannus a ffrind annwyl. Trannoeth i'w farw yn fy nefosiwn beunyddiol cefais ddarllen eiriau y Salmydd, a'u cael yn gysur mewn adfyd. Braff oedd cael fy atgoffa fod yr Arglwydd Dduw, ein Tad nefol, yn dymuno cynnal ei bobl bob amser mewn dyddiau anodd. 'Hyn fu fy nghysur mewn adfyd, fod dy addewid yn fy adfywio. ... Bydded dy gariad yn gysur i mi, yn unol â'th addewid i'th was. Pâr i'th drugaredd ddod ataf, fel y byddaf fyw, oherwydd y mae dy gyfraith yn hyfrydwch i mi.' Salm 119:50, 76-77. Mae'r Salmydd yn ein hannog i fwrw ein baich ar yr Arglwydd, i droi ato ac i alw arno am gael profi cysur, gwaredigaeth a nerth: 'Tro ataf, a bydd drugarog wrthyf, oherwydd unig ac anghenus wyf fi. Esmwythâ gyfyngder fy nghalon, a dwg fi allan o'm hadfyd. Edrych ar fy nhrueni a'm gofid, a maddau fy holl bechodau.' Salm 25:16-18. 'Pan waedda dynion am gymorth, fe glyw'r Arglwydd a'u gwaredu o'u holl gyfyngderau. Y mae'r Arglwydd yn agos at y drylliedig o galon, ac yn gwaredu'r briwedig o ysbryd. Llauer o adfyd a gaiff y cyfiawn, ond gwareda'r Arglwydd ef o'r cyfan.' Salm 34:17-19. Bydded fod gwybod am gariad Duw yn Iesu Grist, a geiriau y Salmydd yn ffynhonnell cymorth a diddanwch i ni mewn dyddiau anodd.

**Gweddi:** Arglwydd, bydded i'th addewidion ein hadfywio a'n cysuro mewn amserau anodd. Yr wyt ti Arglwydd yn Dduw trugarog a graslon, araf i ddigio a llawn ffyddlondeb. Dwg ein gwlad a'n byd drwy yr amser anodd hwn o greisis, ac amddiffyn a gwared ni o afael dinistriol y feirws bygythiol sy'n ein taro. Gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

O Grist, Ffisigwr mawr y byd,  
down atat â'n doluriau i gyd;  
nid oes na haint na chlwy' na chur  
na chilia dan dy ddwylo pur.

Aeth y trallodus ar eu hynnt  
yn gwbl iach o'th wyddfod gynt;  
Ffisigwr mawr, O rho dy hun  
I'n gwneuthur ninnau'n iach bob un.